

Diweddariad 6-Mis:

ADOLYGIAD YMGYSYLLTU Â CHWSMERIAID 2025

Os hoffech gael yr adroddiad hwn mewn unrhyw fformat neu iaith arall, mae croeso i chi gysylltu ag ateb

Awst 2025



Diolch am eich cefnogaeth

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, neu unrhyw agweddau eraill o'r arolygon a'r adroddiadau hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd ei chynnal ar yr ail ddydd Mawrth, o bron bob mis. Cadwch lygad ar ein gwefan am fanylion pa gyfleoedd sydd [ar y gweill](#).

Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni

Diolch am eich holl gefnogaeth dros y 6 mis diwethaf

Mae'r ddogfen hon yn rhannu gwybodaeth â chi am y gwelliannau y mae ateb yn eu gwneud/wedi'u gwneud i wasanaeth yn dilyn yr hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym mewn arolwg blaenorol.

Isod, fe welwch ein **Hadroddiad Diweddar** am yr arolwg canlynol:

➔ Ionawr a Chwefror 2025 — **Adolygiad Ymgysylltu â Chwsmeriaid 2025**

Adolygiad Ymgysylltu â Chwsmeriaid 2025

Pwrpas y thema:

Ystyried sut y gallwn barhau i ehangu a gwella darpariaeth ein menter **Ymgysylltu**; gwirio pa mor dda y mae'r fenter **Ymgysylltu** yn gweithio; darganfod beth yr ydych chi, ein cwsmeriaid, am ein gweld yn ei wella yn ystod 2025 ac wedi hynny.

Drwy gwblhau'r arolwg hwnnw, gwnaethoch ein helpu i weld a ydym yn diwallu eich anghenion. Os yw'r arolwg yn dangos nad ydym yn gwneud hynny, ein nod yw newid ein ffyrdd er mwyn rhoi profiad gwell i chi.

Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg?

Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025

Os hoffech weld yr adroddiad llawn gwreiddiol am yr arolwg hwn, [cliciwch yma](#)

Beth yr ydym wedi'i ddysgu 6 mis yn ddiweddarach?

Bu'r Grŵp Cynllunio Arolygon (sy'n cynnwys cwsmeriaid a staff ac sydd ar hyn o bryd yn agored i bob un o gwsmeriaid ateb) yn dadansoddi canlyniadau'r arolwg hwn o'r fenter Ymgysylltu ar 11/03/25, ac ni chafodd unrhyw gamau gweithredu penodol eu nodi. Roedd hynny oherwydd nad oedd dim byd newydd wedi dod i'r amlwg. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yr angen i ymgysylltu â mwy o gwsmeriaid yn parhau. Nododd y cwsmeriaid a oedd yn y sesiwn amryw ffyrdd o fynd i'r afael â hynny, drwy sylwi ar dueddiadau a oedd yn amlwg yn yr ymatebion i'r arolwg. Ers y cyfarfod hwnnw o'r Grŵp Cynllunio Arolygon, mae'r fenter Ymgysylltu wedi bod yn gweithio ar yr amryw ffyrdd hynny.

Dyma'r amryw ffyrdd:

Darparu ar gyfer yr ardaloedd mwy anghysbell, ac nid ar gyfer Aberdaugleddau a Hwlfordd yn unig

Dyma restr o ddigwyddiadau, sy'n dangos yr amrywiaeth o *leoliadau* a ddefnyddiwyd ers mis Mawrth 2025:

Digwyddiadau Cynllunio Gofal yn y Dyfodol:

- 23/04/25, Hanover Court, Dinbych-y-pysgod
- 21/07/25, Williams Court, Arberth

Ymweliadau ag ystadau:

- Parc Maen Hir, Treletert
- Ocean Drive, Y Garn
- Mae un yn yr arfaeth ar gyfer Sŵn y Môr, Tyddewi

Digwyddiadau cymunedol:

- Stover Avenue, Sageston

Cynnal gwahanol fathau o ddigwyddiadau, megis ymweliadau ag ystadau

Dyma restr o ddigwyddiadau, sy'n dangos yr amrywiaeth o *wahanol fathau o ddigwyddiadau* a gynhaliwyd ers mis Mawrth 2025:

- Digwyddiadau Cynllunio Gofal yn y Dyfodol — 6
- Ymweliadau ag ystadau — 13
- Digwyddiadau cymunedol yn yr awyr agored — 2
- Cynulliadau dan do — 1
- Cyfarfodydd rhwng Grwpiau Cymunedol Cwsmeriaid ac aelod o staff y fenter Ymgysylltu — 4
- Sesiynau ar-lein megis y Fforwm Cwsmeriaid a'r Grŵp Cynllunio Arolygon — 6

Cynnal digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith

O blith yr uchod i gyd, cafodd 7 eu cynnal y tu allan i oriau gwaith, e.e. gwnaethant ddechrau am 16:30 neu 17:00 a phara tan 18:30 neu 19:00.

Cynnal digwyddiadau llai o faint gyda llai o bobl

Roedd pob un o'r ymweliadau ag ystadau yn ddigwyddiadau bach, lle cafodd cwsmeriaid gyfle i siarad â staff mewn sgysiau un i un.

Cynnal digwyddiadau addas i deuluoedd


Roedd y digwyddiadau yn Stover Avenue, Sageston a Three Meadows, Hwlfordd (a bydd y digwyddiad sydd yn yr arfaeth ar gyfer Doc Penfro ym mis Chwefror 2026) yn ddigwyddiadau sy'n addas i deuluoedd. Roedd/Bydd pob un ohonynt yn darparu bwyd, diodydd a gweithgareddau i blant, e.e. gwaith coed lle gall pobl fynd â'r hyn a wnaethant adre gyda nhw, e.e. llwy neu gylch allweddi. Ddiwedd y llynedd, cynhaliwyd digwyddiad Calan Gaeaf a oedd yn annog teuluoedd i ddod ynghyd a choginio gan ddefnyddio ryseitiau iach heb orwario, ac roedd y Cynulliad i Gwsmeriaid ym mis Mai yn barod i groesawu cwsmer a oedd am fynychu gyda dau blentyn dan bump oed.

Sut yr ydym wedi nodi diddordeb newydd

- Mae cwsmeriaid sy'n defnyddio tudalen y fenter Ymgysylltu ar wefan ateb wedi ein cyrraedd drwy ffurflen ar y dudalen honno, sy'n eu gwahodd i gysylltu os oes ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn fwy helaeth.
 - Mae pob ffurflen gwerthuso digwyddiad a rhai arolygon ymgynghori'n cynnwys gwahoddiad i gwsmeriaid ddarparu eu manylion cyswllt, os oes ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn fwy helaeth.
 - Mae'r Adolygiad Ymgysylltu Blyneddol yn cynnwys y gwahoddiad hwnnw hefyd.
 - Mae'r Tîm Atebion o ran Tai yn cyfeirio cwsmeriaid sydd newydd gael eu cartrefu at y fenter Ymgysylltu, os ydynt yn mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn fwy helaeth.
 - Mae unrhyw achlysuron ad hoc, megis beirniadu'r Gystadleuaeth Arddio, wedi cael eu defnyddio i sgwrsio â chwsmeriaid am ymgysylltu ymhellach.
-


Cynyddu'r Hyrwyddo ar Facebook

Dyma rai enghreifftiau o negeseuon Facebook a gyhoeddwyd gan y fenter Ymgysylltu yn ystod y cyfnod. Yn ogystal, drwy drafod â'r Adran Gyfathrebu, cydnabu'r fenter Ymgysylltu fod angen iddi greu mwy o fideos ar gyfer Facebook (gan fod fideos yn well am ddenu gwylwyr nag y mae negeseuon llonydd am ddenu darllenwyr) a gwnaed cais am gyllideb i "hybu" negeseuon gan fod hynny hefyd yn ffordd o gael pobl i'w gweld.




ateb Group's post

ateb: Cost Rhent a Thaliadau Gwasanaeth/The Cost of Rent & Service Charges 2025/26
SICRHEWCH FOD EICH LLAIS YN CAEL EI GLYWED YMA https://www.atebgroup.co.uk/ateb-cost-rhent-a.../...
Raffl gwobr o £100: Gafael ar y cyfle heddiw
GET YOUR VOICE HEARD HERE https://www.atebgroup.co.uk/ateb-the-cost-of-rent.../£100 prize draw: Grab your chance today
See translation



Gofynnodd cwsmeriaid am gael gwybodaeth drwy ebost

Ond nid ydym yn dibynnu ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan yn unig. Dywedodd llawer o gwsmeriaid wrthym y byddent yn hoffi clywed am gyfleoedd drwy ebost.....



....felly rydym yn anfon negeseuon ebost at bob un o gwsmeriaid ateb y mae gennym gyfeiriad ebost cywir ar eu cyfer.

Er enghraifft, o ran Gweithdy Coginio Calan Gaeaf Hydref 2024 y fenter Ymgysylltu, llwyddodd negeseuon ebost a oedd yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y sesiwn am ddim hon — y bwriedid iddi fod yn llwyfan ar gyfer ymgynghori — i gyrraedd 2633 o gwsmeriaid.

Gwnaed gwelliannau i'r system, ac yn achos Cymanfa Les 2025 ateb ym mis Mai, llwyddodd negeseuon ebost a oedd yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y sesiwn am ddim hon — y bwriedid iddi fod yn llwyfan ar gyfer ymgynghori — i gyrraedd 3083 o gwsmeriaid.

Pam nad yw rhai pobl am ymgysylltu

Er mwyn i ni allu chwalu ymhellach unrhyw rwystrau sy'n atal cwsmeriaid rhag cymryd rhan, ac annog mwy o gwsmeriaid i ymuno â ni, buom yn ystyried beth sy'n atal pobl rhag ymgysylltu ag ateb:

“Dydw i'n bersonol ddim yn dda iawn mewn digwyddiadau lle mae yna lawer o bobl, felly mae arolygon fel hyn yn iawn.”

“Cael gwybod a ydynt yn addas i'r sawl sy'n defnyddio cadair olwyn.”

“Rwy'n dioddef o orbryder, iselder ac anhwylder straen wedi trawma, felly byddai'n braf cael cwmni rhywun sy'n deall y problemau hyn mewn digwyddiadau.”


“Cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.”

“Weithiau'n gyfleus, ac weithiau'n anghyfleus... ond nid bai ateb yw hynny.”

“Gan fy mod yn 79 oed ac wedi fy nghofrestru'n berson dall a byddar, mae cyfarfodydd sy'n cynnwys mwy na dau berson yn anodd iawn i fi. Ond mae eich pryder am les y tenantiaid yn glodwiw, yn fy marn i.”

Pobl o ba oedran a ymatebodd i'r arolwg?

Er mwyn i ni allu gweld a oeddem yn cyrraedd ystod oedran a oedd yn deg, gwnaethom ofyn i'r cyfranogwyr ddweud wrthym beth oedd eu hoedran:



YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU:

Drwy gynnal y broses gyfan, h.y. trefnu'r arolwg → cynnal yr arolwg → dadansoddi'r canlyniadau → rhestru meysydd ar gyfer gwella → gwneud y gwelliannau → gwirio'r gwelliannau a wnaed, rydym wedi dysgu:

- Sut, a ble, y gallwn wella ein sianelau cyfathrebu i'n cwsmeriaid.
- Beth sydd orau gan gwsmeriaid ateb o ran sut, a ble, yr hoffent ymgysylltu.
- Pa fath o rwystrau sy'n ein hatal rhag cyrraedd rhai o'n cwsmeriaid.
- I ba raddau y mae cwsmeriaid yn deall pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt.
- Bod angen parhau i wirio a yw ein dulliau ymgysylltu presennol yn gynhwysol ac yn hygyrch.
- Bod angen parhau i wirio a yw cwsmeriaid yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r nodau hyn.

Diolch am eich cefnogaeth

Rydym wir yn ddiolchgar i bawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliadau hyn.

Hoffech chi wybod mwy neu godi mater?

Anfonwch neges e-bost atom: engage@atebgroup.co.uk

Ewch i'n gwefan: www.atebgroup.co.uk

Ffoniwch ni: 01437 774766 / 07500 446611
